# BETH YW DEALLTWRIAETH DDYNEIDDIAETH O FODAU DYNOL?



Mae **stori wyddonol** ein tarddiad yn **rhyfeddol**. Rwy'n credu ei bod yn gwneud bywyd hyd yn oed yn fwy anhygoel a gwerthfawr.

GRACE

**Ni chawsom ein creu. Gwnaethom ni esblygu'n naturiol fel pob peth byw arall ar y blaned. Mae'n fy llenwi â rhyfeddod ein bod ni wedi dechrau mor syml. Mae hefyd yn gwneud i mi sylweddoli pa mor ffodus ydw i i fod yma.**



JULIAN

Mae bodau dynol yn anhygoel. Rydym ni'n **ymwybodol, yn chwilfrydig ac yn greadigol**. Mae gennym ni empathi a rheswm. Gallwn ni ddatrys problemau. Gallwn ni rannu ein syniadau â'n gilydd. Rydym ni wedi cyflawni llawer o bethau mawr fel technoleg, meddygaeth, celf, cerddoriaeth, llenyddiaeth, democratiaeth a hawliau dynol.



ALEX

Ni ddylem ni addoli bodau dynol. Nid ydym ni'n berffaith. Mae gennym ni lawer o ddiffygion. Fodd bynnag, mae gennym ni lawer o alluoedd anhygoel hefyd. Mae'n rhaid i ni atal ein greddfau a'n hymddygiad negyddol, a hyrwyddo ein **galluoedd cadarnhaol** i ddatblygu byd gwell.




JENNY

Mae gennym ni **gyfrifoldeb** i feddwl am sut y gallwn ni wneud y gorau o'n doniau, ein galluoedd, a'n **potensial**, a dylem ni annog pobl eraill i wneud yr un peth. Gall hyn helpu i wneud y byd yn lle gwell.



LINDSAY



Dyma'r **unig fywyd** sydd gennym ni. Dylem ni wneud y gorau ohono yn y presennol a chefnogi pobl eraill i wneud yr un peth.

IMTIAZ

© HUMANISTS UK 2021